SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #23 SCHTh Gogledd Cymru – 30 Mehefin 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #23 – 30 June 2023**

## Y CHTh yn cefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

3-9 Gorffennaf ydy Wythnos Ymwybyddiaeth am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sef yr ymgyrch genedlaethol gan Resolve. Ei nod ydy codi ymwybyddiaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnig cyngor ar sut i hysbysu amdano a phwy ddylai wybod, a deall hawliau'r bobl fel dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r ymgyrch yn cael ei chefnogi gan Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru. Mae atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru yn flaenoriaeth fawr.

Diffinnir ymddygiad gwrthgymdeithasol fel ymddygiad lle mae gweithrediadau unigolyn neu grŵp yn achosi annifyrrwch, dioddefaint neu drafferth i unigolyn neu grŵp penodol neu'r gymuned ehangach. Gall enghreifftiau gynnwys fandaliaeth, niwsans gyda cherbydau, yfed yn y stryd ac ymddygiad amhriodol gan gymdogion.

Mae'r broblem yn rhan allweddol o Gynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd ar gyfer y rhanbarth, sy'n cynnwys ymrwymiadau i gynorthwyo dioddefwyr a chymunedau a chyflawni cymdogaethau mwy diogel. Ers cael ei ethol, mae'r CHTh wedi cyflwyno sawl mesur newydd ac arloesol er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a meithrin Gogledd Cymru mwy diogel i bawb. **Darllenwch fwy yma.**



## Police and Crime Commissioner backs ASB Awareness Week

July 3-9 is Anti-social Behaviour (ASB) Awareness Week, the national campaign from Resolve, which aims to raise awareness of ASB, offer advice on how and who to report it, and to understand people's rights as victims of ASB. The campaign is being backed by North Wales Police and Crime Commissioner (PCC), Andy Dunbobbin, for whom preventing ASB in communities across North Wales is a key priority.

ASB is defined as behaviour where a person's or group's actions causes annoyance, suffering or trouble to a specific person or group or to the wider community, and examples can include vandalism, vehicle nuisance, street drinking and inappropriate behaviour by neighbours.

The issue forms a key part of the Commissioner's Police and Crime Plan for the region, which includes commitments to supporting victims and communities and to delivering safer neighbourhoods. Since being elected, the PCC has introduced several new and innovate measures to combat ASB and foster a safer North Wales for everyone.
**Read more here.**

## CHTH yn cwrdd â Girlguiding Anglesey

Ar 21 Mehefin, aeth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru Andy Dunbobbin i Ganolfan Girlguiding Anglesey ym Mhenrhoslligwy i ddysgu mwy am y grŵp a'u gweithgareddau a sut y bydd arian o gronfa'r Comisiynydd, Eich Cymuned Eich Dewis yn cael ei ddefnyddio er lles pobl ifanc yr ynys.

Mae Eich Cymuned, Eich Dewis yn dathlu ei degfed pen-blwydd yn 2023 a dros y deng mlynedd diwethaf mae dros £500,000 wedi cael ei roi i dros 150 o brosiectau yn gweithio i leihau trosedd yn eu hardaloedd a chynorthwyo'r blaenoriaethau yng Nghynllun Trosedd Comisiynydd yr Heddlu. Mae cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn cynorthwyo prosiectau llawr gwlad ac mae'n derbyn cymorth gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r arian ar gyfer Eich Cymuned, Eich Dewis yn dod yn rhannol oddi wrth arian sydd wedi ei atafaelu drwy'r llysoedd drwy Ddeddf Enillion Troseddau gyda'r gweddill yn dod o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Girlguiding Anglesey yn rhan o Girlguiding UK, elusen i ferched o 4-18 oed. Mae'r gangen ar Ynys Môn yn cwrdd mewn nifer o leoliadau ar draws yr ynys, yn gwneud gweithgareddau gyda'r nod o annog aelodau'r grŵp i fod yn annibynnol ac yn wydn. Mae gan GirlGuiding Anglesey dros 300 o aelodau a 90 o wirfoddolwyr sy'n oedolion. **Darllenwch fwy yma.**



## PCC meets Girlguiding group funding winners in Anglesey

On the evening of June 21, North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin visited Girlguiding Anglesey at their centre in Penrhoslligwy to learn more about the group and their activities and how funding allocated from the PCC's Your Community, Your Choice initiative will be used for the benefit of the young people of the island.

Your Community, Your Choice is celebrating its tenth anniversary in 2023 and, over the past ten years, a total of over £500,000 has been awarded to more than 150 projects working to reduce crime in their areas and to support the priorities in the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plan. The funding for Your Community, Your Choice comes partly from money seized by the courts through the Proceeds of Crime Act, with the rest from the Police and Crime Commissioner.

Girlguiding Anglesey is part of Girlguiding UK, a charity youth organisation dedicated entirely to girls and young women aged 4-18 years old. The Anglesey branch of the organisation meet in numerous locations across the island, carrying out activities with the aim of fostering independence and resilience in all members of the group. **Read more here**.

---

## SCHTh yn Balchder Gogledd Cymru

Cawsom ddiwrnod gwych yn nigwyddiad Balchder Gogledd Cymru yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn. Braf oedd gweld cymaint ohonoch yn ymuno â ni yn y dathliadau mewn diwrnod llawn gweithgareddau a pherfformiadau, lle daeth cymunedau Gogledd Cymru ynghyd i ddathlu amrywiaeth, derbyniad a chynwysoldeb.

Diolch i bawb a ddaeth draw i siarad â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac aelodau o'i swyddfa ar ein stondin.

Sefydlwyd Balchder Gogledd Cymru yn 2011 ac mae'r ŵyl yn dod â phobl ynghyd, gan greu amgylchedd cefnogol a chroesawgar. Trwy gerddoriaeth fyw, perfformiadau, a gorymdaith, nod Balchder Gogledd Cymru yw meithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn i bob unigolyn.










---

## OPCC at North Wales Pride

We had a great day at the North Wales Pride event in Caernarfon on Saturday. It was great to see so many of you joining us in the celebrations in a day full of activities and performances, where the communities of North Wales came together to celebrate diversity, acceptance and inclusivity.

Thank you to everyone who came along and spoke to the Police and Crime Commissioner and members of his office at our stall.

North Wales Pride was established in 2011 and the festival brings people together, creating a supportive and welcoming environment. Through live music, performances, and a parade, North Wales Pride aims to foster a sense of community and belonging for all individuals.

---

## Erthyglau allweddol o’r cyfryngau | Key articles from across the media

- Wrexham.com: Over 100 businesses and organisations attend Wrexham Cybercrime conference *(Erthygl Saesneg)*
- The Leader: Innovative project helps combat anti-social behaviour in Wrexham *(Erthygl Saesneg)*
- *Dee Radio:* Hippy Shop Shotton Supports Deeside Community Projects *(Erthygl Saesneg)*

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy